

WILLIAMS, WILLIAM ('Ap Caledfryn'; 1837 - 1915), arlunydd

Enw: William Williams
Ffugenw: ap Caledfryn
Dyddiad geni: 1837
Dyddiad marw: 1915
Priod: Mary Williams (née Daniel)
Rhiant: William Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth
Awdur: Megan Ellis

Mab **William Williams**, ('Caledfryn'). Ganwyd yn Nghaernarfon, 24 Mawrth 1837, a treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng Nghymru. Derbyniodd ei wers gyntaf mewn arlunio pan yn chwe mlwydd oed gan yr arlunydd Cymreig **Hugh Hughes**.

Priododd â Mary Daniel, merch Herbert Daniel, gweinidog yr Annibynwyr yng Nghefn-y-crib, a bu iddynt fab a merch, a'r ddau, fel eu tad, yn ymddiddori mewn cerddoriaeth. Ymysg ei gyfeillion yr oedd **Dr. Joseph Parry**, **T. H. Thomas** ('Arlunydd Penygarn'), ac **Owen Morgan** ('Morien').

Peintiodd amryw o olygfeydd mewn dyfrlliw, ond darluniau olew o drigolion De Cymru yw mwyafrif ei luniau. Y mae amryw ohonynt ar gael yn Ne Cymru a mae dau lun o'i dad i'w cael, y naill yng nghapel y Groeswen ger Caerffili a'r llall yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Bu farw yn y Groeswen (lle y bu ei dad unwaith yn weinidog) yn 1915, a chladdwyd yno.

Awdur

Megan Ellis, (1906 - 2001)

Ffynonellau

NLW MSS 6358

H. Blackwell, NLW MS 9277A: A Dictionary of Welsh Biography

gwybodaeth gan Mrs. R. Williams-Hughes

Gweithiau

William Williams, **Reverend J R Kilsby Jones 1813-89**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q21458149

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Ellis, M., (1953). WILLIAMS, WILLIAM ('Ap Caledfryn'; 1837 - 1915), arlunydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-WLM-1837>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government